CYNGOR

COFNODION Y CYFARFOD BLYNYDDOL A GYNHALIWYD YN Y SIAMBR, TŶ PENALLTA A THRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD IAU 19 MAI 2022 AM 5.30PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd C. Andrews - Maer

Y Cynghorwyr:

M. Adams, E.M. Aldworth, A. Angel, C. Bishop, A. Broughton-Pettit, M. Chacon-Dawson, R. Chapman, P. Cook, S. Cook, C. Cuss, T.D. Davies MBE, N. Dix, G. Ead, C. Elsbury, G. Enright, K. Etheridge, M. Evans, A. Farina-Childs, C. Forehead, E. Forehead, J.E. Fussell, A. Gair, N. George, C. Gordon, D. Harse, T. Heron, A. Hussey, D. Ingram-Jones, M. James, L. Jeremiah, G. Johnston, J. Jones, S. Kent, A. Leonard, P. Leonard, C. Mann, A. McConnell, B. Miles, C. Morgan, S. Morgan, B. Owen, L. Phipps, D.W.R. Preece, H. Pritchard, J.A. Pritchard, J. Rao, J. Reed, J. Roberts, J. Sadler, R. Saralis, J. Scriven, J. Simmonds, S. Skivens, E. Stenner, J. Taylor, C. Thomas, A. Whitcombe, L. Whittle, S. Williams, W. Williams, J. Winslade, K. Woodland ac C. Wright.

Ynghyd â:-

C. Harrhy (Prif Weithredwr), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Economi a'r Amgylchedd), S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a Swyddog Adran 151), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), L. Lane (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a Dirprwy Swyddog Monitro)

RECORDIO, FFILMIO A THREFNIADAU PLEIDLEISIO

Atgoffodd y Prif Weithredwr bawb a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, ac y byddai recordiad ar gael yn dilyn y cyfarfod ar wefan y Cyngor – https://civico.net/caerphilly. Dywedodd y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy Microsoft Forms.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr D. Cushing, M. James, T. Parry a D. Price.

2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd pob Cynghorydd fuddiant personol yn Eitem 20 ar yr Agenda - Adroddiad Blynyddol 2022/23 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Cyflogau a Lwfansau yn unig ac, felly, gallen nhw gymryd rhan lawn yn y drafodaeth a'r bleidlais.

3. SYLWADAU'R MAER SY'N YMDDEOL

Mynegodd y Cynghorydd Carol Andrews, Maer Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sy'n ymddeol, ei balchder ei bod hi wedi gallu cynrychioli'r Cyngor hwn yn ystod cyfnod mor heriol. Cyfeiriodd y Maer at y 14 digwyddiad y gallodd fynd iddyn nhw'n bersonol ac, er bod pandemig COVID 19 wedi cyfyngu'n sylweddol ar ddyletswyddau ei Swydd Ddinesig, gwnaeth y croeso a gafodd argraff fawr arni. Lle na fu'n bosibl iddi fynd i ddigwyddiad yn bersonol, cafodd y Cyngor wybod ei bod wedi gallu recordio negeseuon neu fynd i ddigwyddiadau a seremonïau gwobrwyo o bell, gyda 22 Tusw o Flodau'n cael eu hanfon i gofio digwyddiadau arbennig i drigolion y Fwrdeistref Sirol.

Rhoddodd y Maer ddiolch ar gofnod i'w merch, Megan, a fu'n Gydymaith i'r Maer a myfyriodd ar farwolaeth drist ei Mam ychydig cyn dechrau ar ei swydd, gan gofio sut yr oedd yn edrych ymlaen at fod yn Gydymaith a pha mor falch y byddai wedi bod o sefyll wrth ei hochr.

Diolchodd y Maer i'r Cynghorydd June Stone, ei Dirprwy Faer, am ei chymorth yn ystod ei chyfnod yn y swydd a mynegodd ddiolch yn benodol i Karen Green, Joy Thomas, Mark Harris, Emma Sullivan, a Thîm y Gwasanaethau Democrataidd am eu holl gymorth.

Wrth ddod â'i sylwadau i derfyn, dymunodd yn dda i'w holynydd a llongyfarchodd Gynghorwyr newydd eu hethol a Chynghorwyr a oedd yn dychwelyd i'w rôl ar eu hetholiad.

Yn eu tro, diolchodd Aelodau i'r Cynghorydd Andrews am gyflawni ei dyletswyddau fel Maer yn ddi-fai ac am gyflawni ei thymor yn y swydd mor urddasol.

4. ETHOL MAER Y CYNGOR TAN Y CYFARFOD BLYNYDDOL YM MIS MAI 2023

Cynigiwyd ac eiliwyd ethol y Cynghorydd Elizabeth Aldworth yn Faer Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili tan y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai 2023 a, thrwy Microsoft Forms a Chadarnhad Geiriol, ac wrth nodi bod 57 o blaid a 2 yn ymatal, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

> PENDERFYNWYD bod y Cynghorydd E.M. Aldworth yn cael ei hethol yn Faer y Cyngor tan y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai 2023.

5. ETHOL DIRPRWY FAER Y CYNGOR TAN Y CYFARFOD BLYNYDDOL YM MIS MAI 2023

Cynigiwyd ac eiliwyd ethol y Cynghorydd Mike Adams yn Ddirprwy Faer Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili tan y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai 2023 a, thrwy Microsoft Forms a Chadarnhad Geiriol, ac wrth nodi bod 55 o blaid, 3 yn erbyn a 2 yn ymatal, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

> PENDERFYNWYD bod y Cynghorydd M. Adams yn cael ei ethol yn Ddirprwy Faer y Cyngor tan y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai 2023.

6. CYHOEDDIADAU'R MAER

Diolchodd y Maer i'r Cynghorydd Andrews a'r Cynghorydd Stone am y ffordd yr oedden nhw wedi cadw'r Swyddfa Ddinesig yn weithredol ac ar gael trwy gydol y pandemig ac am eu cymorth i Aelodau yn ystod cyfarfodydd y Cyngor ac yn y Fwrdeistref Sirol ehangach.

Mynegodd y Maer y balchder a deimlai wrth wisgo cadwyn y rôl a gyflwynwyd iddi heno a gallu cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili dros y 12 mis nesaf. Cadarnhaodd y Maer mai ei gŵr fyddai ei chydymaith a'u bod yn edrych ymlaen yn fawr at allu cynnal calendr dinesig llawn yn sgil codi cyfyngiadau.

Llongyfarchodd y Maer y Cynghorydd Mike Adams ar ei benodiad ac roedd yn edrych ymlaen at weithio gydag ef fel y Dirprwy Faer newydd.

Cadarnhaodd y Maer mai Uned Gofal y Fron Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn Ysbyty Ystrad Mynach fyddai'r elusen o'i dewis a'i gobaith oedd y byddai'r holl arian a godir yn helpu i gryfhau'r uned fel canolfan ragoriaeth er budd trigolion Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Mynegodd Arweinwyr Grŵp eu llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Aldworth a'r Cynghorydd Adams ar eu penodiadau a thalasant deyrnged i'r cyn Faer, Dirprwy Faer ac Arweinydd y Cyngor am eu holl waith caled yn ystod amser anodd tu hwnt.

7. ETHOL ARWEINYDD Y CYNGOR

Cynigiwyd ac eiliwyd penodi'r Cynghorydd Sean Morgan yn Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a, thrwy Microsoft Forms a chadarnhad geiriol, ac wrth nodi bod 44 o blaid, 11 yn erbyn a 7 yn ymatal, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD bod y Cynghorydd S. Morgan yn cael ei ethol yn Arweinydd y Cyngor.

8. NODI PENODIAD DIRPRWY ARWEINYDD

PENDERFYNWYD nodi penodiad y Cynghorydd J. Pritchard yn Ddirprwy Arweinydd y Cyngor.

9. NODI NIFER YR AELODAU SYDD I'W PENODI I'R CABINET A'R ENWAU Y MAE'R ARWEINYDD WEDI'U DEWIS I FOD YN AELODAU O'R CABINET

PENDERFYNWYD nodi penodiad 10 Aelod o'r Cabinet (gan gynnwys yr Arweinydd) a'u portffolios: -

Y Cynghorydd James Pritchard – Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Ffyniant, Adfywio a Newid yn yr Hinsawdd

Y Cynghorydd Nigel George – Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol ac Eiddo

Y Cynghorydd Eluned Stenner – Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad

Y Cynghorydd Carol Andrews – Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau

Y Cynghorydd Shayne Cook – Aelod Cabinet dros Dai

Y Cynghorydd Julian Simmonds – Aelod Cabinet dros Briffyrdd a Thrafnidiaeth

Y Cynghorydd Elaine Forehead – Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol

Y Cynghorydd Philippa Leonard – Aelod Cabinet dros Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd

Y Cynghorydd Chris Morgan – Aelod Cabinet dros Wastraff, Hamdden a Mannau Gwyrdd

10. NODI PENODIAD ARWEINYDD PRIF GRŴP YR WRTHBLAID

PENDERFYNWYD nodi penodiad y Cynghorydd L. Whittle yn Arweinydd Prif Grŵp yr Wrthblaid.

Ar ôl cadarnhau ei benodiad, rhoddodd y Cynghorydd Whittle ei ddiolch ar gofnod i'r Cynghorydd Mann, Arweinydd Blaenorol Grŵp Plaid Cymru am ei holl waith caled ac, ar noson o longyfarch a chydymdeimlo, dywedodd wrth y Cyngor y byddai grŵp yr wrthblaid, fel y dylai unrhyw wrthblaid dda ei wneud, yn rhoi her adeiladol ac yn cyfrannu'n llawn at drafodaethau yn y dyfodol, ac yn edrych ymlaen at dymor newydd y Cyngor a'r hyn y byddai'n ei gynnig i drigolion Bwrdeistref Sirol Caerffili.

11. DATGANIAD YR ARWEINYDD

Dechreuodd yr Arweinydd ei ddatganiad trwy longyfarch y Maer a'r Dirprwy Faer ar eu penodiadau. Mynegodd ei sicrwydd y bydden nhw'n llysgenhadon rhagorol ar ran y Fwrdeistref Sirol yn ystod y flwyddyn yn eu rôl a'i fod yn edrych ymlaen yn fawr at weithio gyda'r ddau ohonyn nhw.

Mynegodd yr Arweinydd pa mor falch a diymhongar yr oedd o gael ei ethol yn Arweinydd ei Gyngor a rhoddodd sicrwydd personol i bob Aelod ac i holl drigolion y Fwrdeistref Sirol y byddai'n parhau â moderneiddio'r sefydliad a gwella gwasanaethau'r Cyngor fel y gwnaeth Arweinwyr blaenorol.

Rhoddodd ar gofnod ei ddiolch i'r Arweinydd blaenorol, Phillipa Marsden, a arweiniodd y Cyngor dan amgylchiadau mor anodd trwy gydol y Pandemig diweddar, gan gynnal gwasanaethau yn ôl yr arfer cymaint â phosibl a'r cyfan oll yn arwain at Weinyddiaeth hanesyddol dan arweiniad y Blaid Lafur am y trydydd tro yn olynol.

Cynghorodd Aelodau fod cymunedau a'r Cyngor hwn, fel pob ardal arall ar draws Cymru, yn parhau i wynebu nifer o heriau sylweddol wrth iddyn nhw ddod dros bandemig byd-eang. Mae pwysau ystyriaethau'r newid yn yr hinsawdd, y rhyfel yn Wcráin a'i sgil-effeithiau niferus ac amrywiaeth o bwysau eraill yn effeithio ar ein gwasanaethau. Efallai mai'r mwyaf argyfyngus yw'r argyfwng costau byw cynyddol a'i effeithiau trychinebus ar ein cymunedau. Ni ddylai pobl, ym Mhrydain yr 21ain Ganrif, fod yn mynd heb fwyd, ond dyna oedd y sefyllfa i lawer a rhaid i ni, fel Cyngor, fod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i helpu a chynorthwyo'r bobl hyn.

Rhoddwyd sicrwydd i'r Cyngor bod angen arweinyddiaeth gadarn a phendant, nawr yn fwy nag erioed, i sicrhau bod y Cyngor yn gallu parhau i gyflwyno newid cadarnhaol i'n trigolion ac, fel Arweinydd, cadarnhaodd mai hyn oedd ei ymrwymiad wrth symud ymlaen. Gyda'i Gabinet, byddai'n gweithio'n agos gyda'r Tîm Rheoli Corfforaethol i gytuno ar flaenoriaethau allweddol a bwrw ymlaen â nifer o uchelgeisiau strategol at y dyfodol. Gofynnwyd i'r Cyngor nodi y byddai'r ffocws cyffredinol ar ddarparu, parhau i amddiffyn gwasanaethau rheng flaen, cyflwyno gwerth am arian a chreu cymunedau bywiog a ffyniannus i'n trigolion ni.

Esboniodd yr Arweinydd y byddai llawer o waith yn cael ei wneud dros yr wythnosau nesaf i fapio ein cynlluniau a'n blaenoriaethau yn glir. Pwysleisiodd bwysigrwydd rheoli disgwyliadau'r gymuned wrth i ni gydnabod nad allwn ni wneud popeth, ym mhob man, felly mae angen i ni reoli ein hadnoddau a chanolbwyntio ein gwasanaethau ni'n unol â hynny. Bydd hyn oll yn cael ei amlinellu'n llawn yn y Cynllun Corfforaethol, a fyddai'n cael ei gyflwyno gerbron y Cyngor yn y dyfodol agos, fel bod gan bawb ddealltwriaeth glir o'r hyn y byddwn ni'n ei gyflawni.

Atgoffwyd y Cyngor sut mae ethos Tîm Caerffili yn ein rhwymo ni. Mae'r arwyddair hwn, sydd yno i bawb ei weld ar arfbais y Maer, yn datgan ein bod ni'n gweithio gyda'n gilydd er lles pawb. Fel Cynghorwyr, mae gennym ni ein rolau a'n cyfrifoldebau perthnasol, a thrwy Bwyllgorau rheoleiddio, penodiadau i sefydliadau allanol, prif gyfarfodydd y Cyngor neu drwy gyfarfodydd craffu, sy'n cynnwys craffu cyn gwneud penderfyniadau, cewch oll gyfle i gynrychioli eich trigolion a dweud eich dweud am sut mae'r Cyngor hwn yn cael ei redeg.

Atgoffodd yr Arweinydd yr Aelodau fod dyrannu'r rolau hyn yn destun cytundeb ar sail gyfrannol yn seiliedig ar ganlyniadau'r etholiad, gan adlewyrchu ewyllys trigolion y Fwrdeistref Sirol yn glir. Mae canlyniadau diweddar yr etholiad yn dangos yn glir fandad cadarn gan y cyhoedd i gyflawni ymrwymiadau ein maniffesto. Cafwyd cefnogaeth rymus gan yr etholaeth tuag at feysydd fel ein hymagwedd â ffocws ar garbon at oleuadau stryd a'n haddewidion allweddol yn ein maniffesto.

Nododd y Cyngor addewidion yr Arweinydd: – adeiladu economi wydn – gweithredu ar yr argyfwng hinsawdd – amddiffyn ein trigolion agored i niwed – cyflwyno addysg ar gyfer Caerffili fodern ac, yn olaf – adeiladu cymunedau iachach a mwy diogel, gyda gwell cysylltiadau.

Byddai Cyngor Caerffili yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni, gwella a thrawsnewid – gwneud ein Bwrdeistref Sirol yn lle gwych i fyw, gweithio a mwynhau ac, fel Arweinydd, byddai'n parhau i godi Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn un o'r awdurdodau lleol sy'n perfformio orau yn y wlad.

12. ADOLYGIAD O GYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL

Ystyriwyd yr adroddiad a amlinellodd yr adolygiad o'r cydbwysedd gwleidyddol ar draws yr awdurdod a dyraniad y seddi i grwpiau gwleidyddol yn unol ag Adran 15 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

Nododd y Cyngor ei bod hi'n ofynnol adolygu cydbwysedd gwleidyddol ei bwyllgorau ac, i'r graddau ag y bo'n ymarferol, dyrannu seddi yn ôl canran gyfan y blaid o gyfanswm seddi'r awdurdod. Fodd bynnag, roedd hi'n amhosibl cael canran gytbwys berffaith ym mhob pwyllgor ac, felly caiff dwy egwyddor eu defnyddio, y cyntaf, mae'n rhaid bod gan grŵp y mwyafrif fwyafrif ar unrhyw bwyllgor ac, yn ail, rhaid bod dyraniad cyffredinol y seddi mor agos â phosibl at y ganran gyfan sydd gan blaid ar y Cyngor.

Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro yn benodol at y Panel Apeliadau, y mae 3 aelod o'i bwyllgor. O dan gyfrifiad y cydbwysedd gwleidyddol presennol, byddai hynny'n golygu dyraniad o 2-1 ond, yn y gorffennol cymeradwyodd y Cyngor gynrychiolaeth gyfartal o'r 3 phrif blaid wleidyddol ac, felly, 1-1-1 oedd yr aelodaeth. Pe bai'r Cyngor yn dymuno parhau â'r dyraniad 1-1-1, byddai angen i'r cydbwysedd gwleidyddol gael ei gymeradwyo'n unfrydol.

Ceisiwyd eglurhad ynghylch cyfansoddiad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, nad oedd gan y Grŵp Annibynnol sedd arno o dan y cydbwysedd gwleidyddol hwn. Yn ysbryd cydweithio, gofynnodd Arweinydd y Grŵp Annibynnol am wneud eithriad yn yr achos hwn a bod sedd yn cael ei ddyrannu i'r Grŵp Annibynnol.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro mai mater i'r Cyngor fyddai hyn ac amlinellodd y newidiadau i gyfansoddiad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Roedd hyn yn gofyn bod y pwyllgor yn cynnwys 4 Aelod Lleyg a'r 8 sedd arall yn cael eu dyrannu yn unol â'r cydbwysedd gwleidyddol.

Cyfeiriodd Aelod at eithriadau blaenorol ynghylch dyrannu seddi, yn benodol ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio, a gofynnodd bod hyn yn cael ei ystyried eto yn unol ag ethos Tîm Caerffili o gydweithio. Teimlai'r Aelod Annibynnol y byddai'r diffyg cynrychiolaeth annibynnol yn niweidiol i wardiau annibynnol ac y dylai pleidiau eraill gydnabod hyn.

Cyfeiriodd yr Arweinydd y Cyngor at gyfrifo'r cydbwysedd gwleidyddol y cyfeirir ato yn Atodiad 1 yr adroddiad ac amlygodd ddyraniad mathemategol syml y seddi a bod y seddi hyn wedi'u neilltuo yn unol â dymuniadau'r etholaeth yn ei chyfanrwydd.

Cynigiwyd ac eiliwyd fod yr argymhelliad yn adroddiad y Swyddog yn cael ei gymeradwyo a, thrwy Microsoft Forms a Chadarnhad Llafar, ac wrth nodi bod 52 o blaid, 8 yn erbyn a 3 yn ymatal, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD nodi'r cydbwysedd gwleidyddol a amlinellir yn Atodiad 1 a dyraniad cyffredinol y seddi i'r pwyllgorau yn unol â'r cydbwysedd gwleidyddol.

13. PENODI CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD Y PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU CANLYNOL YN UNOL Â'R CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL AR GYFER Y FLWYDDYN NESAF – PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, PWYLLGOR CRAFFU POLISI AC ADNODDAU/PWYLLGOR CRAFFU AR BARTNERIAETHAU, PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD A CHYNALIADWYEDD A'R PWYLLGOR CRAFFU TAI AC ADFYWIO

Cynigiwyd ac eiliwyd penodi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn unol â'r cydbwysedd gwleidyddol ar gyfer y canlynol a, thrwy Microsoft Forms a Chadarnhad Llafar, ac wrth nodi bod 62 o blaid ac 1 yn erbyn, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD bod:-

1. Y Cynghorydd T. Parry yn cael ei phenodi'n Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg a'r Cynghorydd J. Rao yn cael ei phenodi'n Is-gadeirydd.

2. Y Cynghorydd D. Cushing yn cael ei phenodi'n Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cynghorydd M. Chacon-Dawson yn cael ei phenodi'n Is-gadeirydd.

3. Y Cynghorydd G. Johnston yn cael ei benodi'n Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau/Partneriaethau a'r Cynghorydd B. Miles yn cael ei phenodi'n Is-gadeirydd.

4. Y Cynghorydd D.T. Davies MBE yn cael ei benodi'n Gadeirydd Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd a'r Cynghorydd A. Hussey yn cael ei benodi'n Is-gadeirydd.

5. Y Cynghorydd A. Whitcombe yn cael ei benodi'n Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Tai ac Adfywio a'r Cynghorydd P. Cook yn cael ei phenodi'n Is-gadeirydd.

14. PENODI AELODAU I WASANAETHU AR Y PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU CANLYNOL AM Y FLWYDDYN NESAF YN UNOL Â'R CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL - PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, PWYLLGOR CRAFFU POLISI AC ADNODDAU/PWYLLGOR CRAFFU AR BARTNERIAETHAU, PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD A CHYNALIADWYEDD A'R PWYLLGOR CRAFFU TAI AC ADFYWIO

Cynigiwyd ac eiliwyd bod Aelodau'n cael eu penodi i wasanaethau ar Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn unol â'r cydbwysedd gwleidyddol am y flwyddyn nesaf a, thrwy Microsoft Forms a Chadarnhad Llafar, ac wrth nodi bod 62 o blaid ac 1 yn erbyn, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD bod:-

1. Y Cynghorwyr E.M. Aldworth, C. Bishop, A. Broughton-Pettit, M. Chacon-Dawson, A. Farina-Childs, A. Gair, C. Gordon, M. James, B. Miles, T. Parry, L. Phipps, M. Powell, J. Rao, J. Roberts, J. Winslade, K. Woodland yn cael eu penodi i'r Pwyllgor Craffu Addysg.

2. Y Cynghorwyr C. Bishop, D. Cushing, M. Chacon-Dawson, A. Broughton-Pettit, R. Chapman, P. Cook, K. Etheridge, M. Evans, D. Harse, T. Heron, D. Price, J. Rao, L. Jeremiah, A. Leonard, J. A. Pritchard, S. Skivens yn cael eu penodi i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol.

3. Y Cynghorwyr M. Adams, E.M. Aldworth, C. Cuss, G. Enright, D. Ingram-Jones, G. Johnston, C. Mann, A. McConnell, B. Miles, J. Reed, J. Taylor, D. Preece, C. Thomas, L. Whittle, C. Wright, A. Whitcombe yn cael eu penodi i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau/Partneriaethau.

4. Y Cynghorwyr M. Adams, R. Chapman, C. Cuss, D. T. Davies MBE, N. Dix, C. Elsbury, M. Evans, A. Gair, A. Hussey, S. Kent, A. Leonard, D. Preece, H. Pritchard, J. Roberts, S. Williams, C. Wright yn cael eu penodi i Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

5. Y Cynghorwyr D. Cushing, P. Cook, G. Ead, C. Forehead, A. Hussey, L. Jeremiah, C. Mann, A. McConnell, B. Owen, L. Phipps, J.A. Pritchard, D. Price, J. Winslade, S. Williams, W. Williams, A. Whitcombe yn cael eu penodi i'r Pwyllgor Craffu Tai ac Adfywio.

15. PENODI CADEIRYDD AC/NEU IS-GADEIRYDD (FEL BO'R ANGEN) I'R PWYLLGORAU CANLYNOL AM Y FLWYDDYN NESAF (YN UNOL Â'R CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL)

Cynigiwyd ac eiliwyd bod Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion (fel bo'r angen) i Bwyllgorau'n cael eu penodi yn unol â'r cydbwysedd gwleidyddol a, thrwy Microsoft Forms a Chadarnhad Llafar, ac wrth nodi bod 58 o blaid a 3 yn ymatal, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD bod: -

1. Y Cynghorydd W. Williams yn cael ei benodi'n Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu a Gamblo/Pwyllgor Tacsis a Chyffredinol a'r Cynghorydd M. Adams yn cael ei benodi'n Is-gadeirydd.

2. Y Cynghorydd R. Saralis yn cael ei benodi'n Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a'r Cynghorydd E.M. Aldworth yn cael ei phenodi'n Is-gadeirydd.

3. Y Cynghorydd B. Miles yn cael ei phenodi'n Gadeirydd y Pwyllgor Apeliadau.

4. Y Cynghorydd E.M. Aldworth yn cael ei phenodi'n Gadeirydd y Pwyllgor Apwyntiadau a'r Cynghorydd J. Sadler yn cael ei benodi'n Is-gadeirydd.

5. Y Cynghorydd M. James yn cael ei benodi'n Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Cynghorydd L. Phipps yn cael ei phenodi'n Is-gadeirydd.

16. NODI Y BYDD CADEIRYDD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO YN AELOD LLEYG AC YN CAEL EI BENODI YN Y CYFARFOD CYNTAF YN DILYN CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR

Nododd y Cyngor fod yn rhaid i Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn Aelod Lleyg ac y bydd yn cael ei benodi yn y cyfarfod cyntaf yn dilyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor.

17. PENODI AELODAU I WASANAETHU AR Y PWYLLGORAU CANLYNOL AM Y FLWYDDYN NESAF YN UNOL Â'R CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL – PANEL APELIADAU, PWYLLGOR PENODIADAU, PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO, PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD, PWYLLGOR YMCHWILIO A DISGYBLU, PWYLLGOR TRWYDDEDU A GAMBLO/PWYLLGOR TACSIS A CHYFFREDINOL, PWYLLGOR CYNLLUNIO A PHWYLLGOR SAFONAU

Cynigiwyd ac eiliwyd bod Aelodau'n cael eu penodi i wasanaethu ar bwyllgorau am y flwyddyn nesaf yn unol â'r cydbwysedd gwleidyddol a, thrwy Microsoft Forms a Chadarnhad Llafar, ac wrth nodi bod 57 o blaid, 1 yn erbyn a 4 yn ymatal, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD bod: -

1. Y Cynghorwyr K. Etheridge, G. Enright a B. Miles yn cael eu penodi i'r Panel Apeliadau.

2. Y Cynghorwyr E. M. Aldworth, N. George, E. Stenner, A. Whitcombe, A. McConnell, C. Mann, J. Sadler, J. Taylor, K. Etheridge, a'r Aelod Cabinet perthnasol yn cael eu penodi i'r Pwyllgor Apwyntiadau.

3. Y Cynghorwyr D. T. Davies, G. Ead, A. Farina-Childs, C. Forehead, A. Hussey, M. James, L. Jeremiah, C. Mann, A. McConnell, L. Phipps, D. Price, J. A. Pritchard, J. Sadler, C. Thomas, A. Whitcombe, J. Winslade yn cael eu penodi i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

4. Y Cynghorwyr M. Adams, E.M. Aldworth, A. Broughton-Pettit, M. Chacon-Dawson, P. Cook, T. Parry, J. Taylor yn cael eu penodi i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

5. Y Cynghorwyr A. Adams, E. M. Aldworth, A. Angel, D.T. Davies, Colin Gordon, J. Taylor, A. Whitcombe yn cael eu penodi i'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu

6. Y Cynghorwyr M. Adams, E.M. Aldworth, D. Cushing, P. Cook, G. Ead, C. Gordon, D. Harse, T. Heron, J. Jones, D. Price, D.W.R. Preece, J. Scriven, J. Roberts, S. Williams, W. Williams yn cael eu penodi i'r Pwyllgor Trwyddedu a Gamblo/Tacsis a Chyffredinol.

7. Y Cynghorwyr M. Adams, E. M. Aldworth A. Angel, R. Chapman, N. Dix, G. Ead, J. Fussell, A. Hussey, D. Ingram-Jones, B. Miles, M. Powell, R. Saralis, J. Taylor, S. Williams, A. Whitcombe, K. Woodland yn cael eu penodi i'r Pwyllgor Cynllunio.

8. Y Cynghorwyr D. Price ac C. Mann yn cael eu penodi i'r Pwyllgor Safonau.

9. Y Cynghorwyr J. Simmonds, P. Leonard, C. Morgan, E. Stenner, J. Pritchard yn cael eu penodi i Bwyllgor y Cabinet ar Hawliau Tramwy.

18. CYFANSODDIAD IS-BWYLLGORAU/GWEITHGORAU/PANELI/BYRDDAU, A PHENODI AELODAU I WASANAETHU ARNYN NHW AM Y FLWYDDYN NESAF YN UNOL Â'R CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL

Cynigiwyd ac eiliwyd bod Is-bwyllgorau/Gweithgorau/Paneli/Byrddau'n cael eu cyfansoddi a bod Aelodau'n cael eu penodi i wasanaethu arnyn nhw am y flwyddyn nesaf yn unol â'r cydbwysedd gwleidyddol a, thrwy Microsoft Forms a Chadarnhad Llafar, ac wrth nodi bod 57 o blaid a 4 yn ymatal, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD bod: -

1. Y Cynghorwyr M. Adams, C. Andrews (Aelod Cabinet), M. Chacon-Dawson, B. Miles, M. James, J. Roberts, A. Whitcombe yn cael eu penodi i wasanaethau ar y Panel Cynghori ar gyfer Penodi a Diswyddo Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.

2. Y Cynghorwyr C. Andrews, D.T. Davies, D. Ingram-Jones, Mrs D. Price yn cael eu penodi i wasanaethu ar Grŵp Rheoli Canol Tref Bargod

3. Y Cynghorwyr M. Chacon-Dawson, N. Dix, K. Etheridge, A. Farina-Childs, T. Heron, S. Williams yn cael eu penodi i wasanaethu ar Grŵp Rheoli Canol Tref Coed Duon.

4. Y Cynghorydd P. Leonard yn cael ei phenodi i wasanaethu ar Grŵp Cyflawni Diogelwch Cymunedol Caerffili.

5. Y Cynghorwyr S. Cook (Aelod Cabinet) C. Gordon, A. Hussey, D. Price, A. McConnell, J. Scriven, D. Cushing yn cael eu penodi i wasanaethu ar Grŵp Gorchwyl Cartrefi Caerffili.

6. Y Cynghorydd C. Morgan yn cael ei benodi i wasanaethu ar Fforwm Mynediad Lleol Caerffili.

7. Y Cynghorwyr A. Angel, P. Cook, A. Gair, T. Heron, A. Hussey, D. Ingram-Jones, N. George, C. Gordon, L. Jeremiah, A. McConnell, T. Parry, J.A. Pritchard, C. Thomas, L. Whittle, J. Winslade, K. Etheridge yn cael eu penodi i wasanaethau ar yr Is-bwyllgor Cyswllt Cynghorau Cymuned.

8. Y Cynghorwyr M. Adams, M. Chacon-Dawson, R. Chapman, G. Enright. S. Kent, J. Sadler, W. Williams yn cael eu penodi i wasanaethu ar y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.

9. Y Cynghorwyr S. Morgan, J. Pritchard, C. Andrews, S. Cook, E. Forehead, P. Leonard, J. Simmonds, C. Morgan, E. Stenner, N. George yn cael eu penodi i wasanaethu ar y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Corfforaethol.

10. Y Cynghorydd E. Stenner yn cael ei phenodi i wasanaethu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyflawni Addysg.

11. Y Cynghorwyr B. Miles ac A. Whitcombe yn cael eu penodi i wasanaethu ar Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Gwasanaeth Cyflawni Addysg.

12. Y Cynghorwyr A. Broughton- Pettit, M. Chacon-Dawson, P. Cook, G. Enright, A. Gair, T. Heron, D. Ingram-Jones, L. Jeremiah, D.W.R. Preece, J.A. Pritchard, J. Rao, J. Roberts, J. Taylor, W. Williams, J. Reed yn cael eu penodi i wasanaethu ar y Panel Grantiau i'r Sector Gwirfoddol.

13. Y Cynghorwyr: D.W.R. Preece ac A. Whitcombe (Abercarn), J. Simmonds (Crosskeys), K. Woodland (Crymlyn), N. George, P. Leonard, A. Leonard, (Dwyrain Rhisga), Bob Owen, Ceri Wright (Gorllewin Rhisga) a'r Aelod Cabinet C. Morgan (Aelod Cabinet dros Wastraff, Hamdden a Mannau Gwyrdd) – Dirprwy enwebedig: y Cynghorydd C. Thomas (Crymlyn) – Trwy Wahoddiad: y Cynghorwyr A. Hussey, L. Jeremiah a G. Johnston (Materion cysylltiedig â ward Trecelyn) yn cael eu penodi i wasanaethu ar Weithgor Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog – Cangen Crymlyn.

14. Y Cynghorwyr P. Cook, G. Enright, C. Gordon, B. Miles, M. Powell, D.W.R. Preece, J. Scriven, W. Williams a'r Aelod Cabinet priodol yn cael eu penodi i wasanaethu ar y Pwyllgor Pensiynau/lawndal.

15. Y Cynghorwyr C. Elsbury ac A. Hussey yn cael eu penodi i wasanaethu ar Cyd-banel Craffu'r Prosiect Gwyrdd.

16. Y Cynghorwyr J. Simmonds, P. Leonard, C. Morgan, E. Stenner a J. Pritchard yn cael eu penodi i wasanaethu ar Bwyllgor y Cabinet ar Hawliau Tramwy.

17. Y Cynghorwyr N. George, A. Leonard, B. Owen ac C. Wright yn cael eu penodi i wasanaethu ar Grŵp Rheoli Canol Tref Rhisga.

18. Y Cynghorwyr C. Morgan, D. Harse ac S. Kent yn cael eu penodi i wasanaethu ar Dasglu Afon Rhymni.

19. Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael eu penodi i wasanaethu ar y Grŵp Arwain Craffu.

20. Y Cynghorwyr E.M. Aldworth, M. Chacon-Dawson, B. Miles, T. Parry, J. Taylor ac A. Whitcombe yn cael eu penodi i wasanaethu ar y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol.

21. Y Cynghorwyr P. Cook, R. Chapman, C. Gordon, J. Fussell, T. Parry, D.W.R. Preece, D. Price, H. Pritchard, J. Sadler, E. Stenner, S. Williams, W. Williams, J. Winslade, L. Whittle, K. Etheridge yn cael eu penodi i wasanaethu ar Bwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol.

22. Y Cynghorwyr A. Angel, D. Cushing, M. James, T. Parry yn cael eu penodi i wasanaethu ar Grŵp Rheoli Canol Tref Ystrad Mynach.

19. PENODI/ENWEBU CYNRYCHIOLWYR I WASANAETHU AR GYRFF ALLANOL LLE BO'R GOFYN

Cynigiwyd ac eiliwyd bod Aelodau'n cael eu penodi/eu henwebu i wasanaethu ar Gyrff Allanol lle bo'r gofyn a, thrwy Microsoft Forms a Chadarnhad Llafar, ac wrth nodi bod 58 o blaid a 4 yn ymatal, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD bod: -

1. **Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan (Cyfnod mewn Swydd – 2 flynedd tan 2021)**
   Y Cynghorwyr M. Chacon-Dawson, T. Parry, J. Simmonds yn cael eu penodi.

2. **Cronfa Les y Fyddin - Gwent**
   Y Cynghorydd T. Heron yn cael ei phenodi.

3. **Cymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cyhoeddus (APSE) – Pwyllgor Rhanbarthol Cymru**
   Y Cynghorwyr S. Cook, N. George ac C. Morgan yn cael eu penodi.

4. **Panel Maethu Caerffili**
   Y Cynghorydd B. Miles yn cael ei phenodi.

5. **Grŵp Lleihau Carbon**
   Y Cynghorydd J. Pritchard yn cael ei benodi.

6. **Cydbwyllgor Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (Cabinet Rhanbarthol)**
   Arweinydd y Cyngor a Dirprwy Arweinydd y Cyngor – y Cynghorydd S. Morgan a'r Cynghorydd J. Pritchard yn cael eu penodi.

7. **Cydbwyllgor Craffu Prifddinas-Ranbarth Caerdydd**
   Y Cynghorydd A. Whitcombe a'r Cynghorydd C. Elsbury yn cael eu penodi.

8. **Gofal a Thrwsio – Caerffili**
   Y Cynghorydd S. Cook a Rheolwr Tai'r Sector Preifat yn cael eu penodi.

9. **Bwrdd Ymddiriedolwyr Cyngor ar Bopeth**
   Y Cynghorydd N. George yn cael ei benodi.

10. **Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Gwent (Partneriaeth Gymunedol Crosskeys)**
    Y Cynghorydd C. Andrews yn cael ei phenodi.

11. **Coleg Harlech – Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Gogledd Cymru**
    Y Cynghorydd C. Andrews yn cael ei phenodi.

12. **Corfforaeth Coleg y Cymoedd (Bwrdd Llywodraethwyr Coleg Ystrad Mynach gynt)**
    Sian Farquharson, Ymgynghorydd Her y Gwasanaeth Cyflawni Addysg

13. **Grŵp Rhianta Corfforaethol**
    Y Cynghorwyr E. Forehead, C. Andrews, a'r Cynghorwyr D. Cushing, C. Bishop, B. Miles (Aelod o'r Panel Maethu) yn cael eu penodi.

14. **Grŵp Diogelu Corfforaethol**
    Y Cynghorwyr C. Andrews ac E. Forehead, D. Cushing ac C. Bishop, T. Heron, K. Etheridge yn cael eu penodi.

15. **Fields in Trust (Cymdeithas Genedlaethol y Meysydd Chwarae gynt)**
    Y Cynghorydd C. Morgan yn cael ei benodi.

16. **Cydbwyllgor Archifau Morgannwg**
    Y Cynghorwyr C. Andrews a J. Simmonds yn cael eu penodi.

17. **Cydbwyllgor Amlosgi Gwent Fwyaf – 2 Aelod**
Y Cynghorwyr J. Simmonds a J. Taylor yn cael eu penodi.

18. **Groundwork Cymru**
S. Williams yn cael ei benodi.

19. **Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent**
Y Cynghorydd C. Andrews yn cael ei phenodi.

20. **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent**
Y Cynghorydd E. Forehead yn cael ei phenodi.

21. **Cydbwyllgor Archifau Gwent – 2 Aelod**
Y Cynghorwyr C. Andrews a J. Simmonds yn cael eu penodi.

22. **Panel yr Heddlu a Throseddu Gwent - cydbwysedd gwleidyddol ar draws Gwent**
Y Cynghorwyr C. Forehead, M. Chacon-Dawson, C. Mann yn cael eu penodi.

23. **Cynghrair Cymunedau Diwydiannol (Ymgyrch Cymunedau'r Meysydd Glo gynt)**
Y Cynghorydd E. Stenner yn cael ei phenodi.

24. **Bwrdd Rheoli Clwb Bowlio Dan Do Islwyn**
Y Cynghorwyr M. Adams ac C. Morgan yn cael eu penodi.

25. **Cyd-gyngor Cymru**
Y Cynghorwyr N. George ac E. Stenner yn cael eu penodi.

26. **Y Ganolfan Ddysgu (Uned Cyfeirio Disgyblion)**
Y Cynghorydd M. Evans yn cael ei benodi.

27. **Gweithredu yr Awdurdod Lleol ar gyfer De Affrica (LAACTSA)**
Y Cynghorydd J. Simmonds yn cael ei benodi.

28. **Cymdeithas Llywodraeth Leol**
Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd S. Morgan a J. Pritchard, E. Stenner ac N. George yn cael eu penodi.

29. **Grŵp Cyd-lywio Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog** (Partneriaeth Adfywio Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog gynt)
Y Cynghorwyr J. Simmonds, C. Morgan (y Cynghorydd A. Whitcombe) yn cael eu penodi.

30. **Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Amaethyddol Sir Fynwy**
Y Cynghorydd C. Andrews yn cael ei phenodi.

31. **PATROL** (Rheoliadau Parcio a Thraffig y Tu Allan i Lundain) – Cydbwyllgor Dyfarnu – y Cynghorydd J. Simmonds yn cael ei benodi.

32. **Panel Buddion Cymunedol Fferm Wynt Pen Bryn Oer**
Yr Aelod dros Ward Twyncarno – y Cynghorydd C. Cuss yn cael ei benodi.

33. **Pwyllgor Cyswllt PFI**
Yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad – y Cynghorydd C. Andrews yn cael ei phenodi.

34. **Cydbwyllgor Prosiect Gwyrdd**
    Y Cynghorwyr C. Morgan a J. Pritchard yn cael eu penodi.

35. **Datganiad Technegol Rhanbarthol (Agregau)**
    Y Cynghorydd J. Simmonds yn cael ei benodi.

36. **Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol**
    Y Cynghorydd S. Morgan yn cael ei benodi.

37. **Cymdeithas Lluoedd Arfog Wrth Gefn a Chadetiaid Cymru**
    Y Cynghorydd T. Heron yn cael ei phenodi.

38. **Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerffili Saffach**
    Y Cynghorydd P. Leonard yn cael ei phenodi.

39. **Fforwm Derbyniadau Ysgolion**
    Y Cynghorydd C. Andrews yn cael ei phenodi.

40. **Fforwm Cyllidebau Ysgolion**
    Y Cynghorwyr E. Stenner ac C. Andrews yn cael eu penodi.

41. **Grŵp Amgylcheddol Ardal y De-ddwyrain**
    Y Cynghorydd C. Morgan yn cael ei benodi.

42. **Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru**
    Y Cynghorydd P. Leonard yn cael ei phenodi.

43. **Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru**
    Y Cynghorwyr C. Wright, A. Hussey, C. Elsbury yn cael eu penodi.

44. **Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru**
    Y Cynghorydd C. Morgan yn cael ei benodi.

45. **Panel Cist Gymunedol Sportlot**
    Y Cynghorwyr A. Gair, C. Thomas ac W. Williams yn cael eu penodi.

46. **Ambiwlans Sant Ioan Cymru**
    Y Cynghorydd C. Andrews yn cael ei phenodi.

47. **Panel Cynllunio Strategol**
    Y Cynghorydd P. Leonard yn cael ei phenodi.

48. **Comisiwn Trefol (Cymdeithas Llywodraeth Leol)**
    Y Cynghorydd J. Simmonds yn cael ei benodi.

49. **Fforwm Parth Di-niwclear Cymru a Chenedlaethol**
    Y Cynghorydd C. Forehead yn cael ei phenodi.

50. **Cyngor Cymru i Bobl Fyddar**
    Y Cynghorydd A. Gair yn cael ei phenodi.

51. **Cyngor Llyfrau Cymru (3 blynedd) a Phwyllgor Gweithredol Cyngor Llyfrau Cymru (Blwyddyn)**
    Y Cynghorydd J. Simmonds yn cael ei benodi.

52. **Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru**
    Y Cynghorydd P. Leonard yn cael ei phenodi.

53. **Cronfa'r Degwm**
Y Cynghorydd E. Stenner a'r Cynghorydd N. George (Dirprwy) yn cael eu penodi.

54. **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd S. Morgan a'r Cynghorwyr J. Pritchard, N. George ac E. Stenner yn cael eu penodi.

55. **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Bwrdd Gweithredol**
Arweinydd y Cyngor – S. Morgan yn cael ei benodi.

56. **CBAC**
Y Cynghorydd C. Andrews yn cael ei phenodi.

57. **Cymdeithas Addysg y Gweithwyr – Pwyllgor Dosbarth De Cymru**
Y Cynghorydd C. Forehead yn cael ei phenodi.

20. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL – 2022-23 – CYFLOGAU A LWFANSAU

Ar sail cyngor y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro, datganodd yr holl Aelodau fuddiant personol yn unig gan fod yr adroddiad yn cyfeirio at benderfyniadau Cyflogau a Lwfansau ar gyfer Aelodau Etholedig Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, ac, felly, gallai pob Aelod chwarae rhan lawn yn y drafodaeth a phleidleisio.

Ystyriwyd yr adroddiad, a roddodd wybod i'r Cyngor am gyhoeddi Adroddiad Blynyddol 2022/23 gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, sydd ynghlwm yn Atodiad 1 adroddiad y Swyddog.

Hefyd, ceisiodd yr adroddiad benderfyniad y Cyngor ar ba rolau ddylai gael yr uwch daliadau cyflog, penodi rolau dinesig a chyflogau, ynghyd â materion ategol eraill fel yr amlinellir yn argymhellion yr adroddiad.

Cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn adroddiad y Swyddog yn cael eu cymeradwyo a, thrwy Microsoft Forms a Chadarnhad Llafar, ac wrth nodi bod 55 o blaid, 1 yn erbyn a 4 yn ymatal, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD: -

1. Bod penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol fel yr amlinellir yn Adroddiad Blynyddol 2022/23 yn cael eu nodi.

2. Cadarnhau y bydd y rolau canlynol yn denu uwch daliad cyflog: -
Arweinydd y Cyngor
Y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Ffyniant, Adfywio a Newid yn yr Hinsawdd
Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol ac Eiddo
Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad
Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau
Aelod Cabinet dros Dai
Aelod Cabinet dros Briffyrdd a Thrafnidiaeth
Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol
Aelod Cabinet dros Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd
Aelod Cabinet dros Wastraff, Hamdden a Mannau Gwyrdd
Arweinydd y Grŵp Gwrthbleidiol Mwyaf
Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau

Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg
Cadeirydd Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Tai ac Adfywio
Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu a Gamblo/Pwyllgor Tacsis a Chyffredinol
Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio

3. Bod y Maer a'r Dirprwy Faer yn cael eu penodi ac yn derbyn cyflog dinesig o £25,593 a £20,540 yn y drefn honno.

4. Cadarnhau na fydd llywydd yn cael ei benodi.

5. Nodi'r Atodlen Cydnabyddiaeth Ariannol yn atodiad 2 yr adroddiad.

   A) bydd y cap ar daliadau i aelodau cyfetholedig yn cael ei gynyddu o 10 i 12 diwrnod llawn y flwyddyn ar gyfer pob pwyllgor y gall unigolyn gael ei gyfethol iddo gyda hawliau pleidleisio.
   B) nodi parhad y dyletswyddau cymeradwy yn Atodlen 2.

6. Nodi'r gofynion cyhoeddusrwydd a amlinellwyd yn adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ac ym mharagraff 5.12 yr adroddiad.

21. NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i wneud newidiadau i'r Cyfansoddiad yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021.

Nododd y Cyngor fod y newidiadau i'r Cyfansoddiad yn cynnwys Polisi newydd ar Gyfarfodydd Aml-leoliad. Nod y polisi oedd amlinellu'r trefniadau i'w rhoi ar waith a fydd yn sicrhau y gall cyfarfodydd y cyngor gael eu cynnal ni waeth ble mae'r cyfranogwyr wedi'u lleoli. Bydd hyn yn galluogi pobl nad ydyn nhw yn yr un lleoliad i fynychu cyfarfodydd. Cyfeiriwyd at y cyfarfodydd hyn fel cyfarfodydd aml-leoliad ac, yn aml, fe'u gelwir yn hybrid.

Cynghorodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro fod y newidiadau arfaethedig wedi'u hamlinellu yn Atodiad 1 yr adroddiad a'u hamlygu mewn glas. Hefyd, gofynnwyd i'r Cyngor nodi y byddai cyfarfodydd y cyngor bellach yn cael eu ffrydio'n fyw, yn unol â darpariaethau'r Ddeddf. Amlygodd Mr Tranter fod y Cyfansoddiad yn ddogfen weithredol a oedd yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n barhaus i sicrhau ei haddasrwydd ar gyfer y Cyngor. Cyfeiriwyd at fenter ddiweddar y Cyfansoddiad Model, a aeth ati i lunio cyfansoddiad safonol a gafodd ei beilota a'i drafod gan Rwydwaith Swyddogion Monitro Cymru, ond nid oedd neb wedi mabwysiadu'r model yn llawn, gyda'r mwyafrif yn mabwysiadu'r llwybr a argymhellwyd i'r Cyngor heno, sef diwygio a diweddaru'r cyfansoddiad presennol i gyfrif am newidiadau i ddeddfwriaeth.

Cyfeiriwyd at Dudalen 260 adroddiad y Swyddog, Rhan 4 – Adran 10 Cwestiynau gan Aelodau, a chyfeiriwyd at y ffaith y gellid gofyn cwestiwn atodol i'r Arweinydd, ond nid oedd yr opsiwn hwnnw'n berthnasol i Aelodau'r Cabinet. Yna, gofynnodd yr Aelod am eglurhad ynghylch Tudalen 310 i 312 adroddiad y Swyddog, Rhan 4 Adran 16 Galw i Mewn, a hawl y Swyddog Monitro mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Craffu i benderfynu ar ddilysrwydd cais ac a ddylai fod hawl i apelio i gyflafareddwr annibynnol neu efallai Swyddog Monitro awdurdod cyfagos.

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at y llwybrau niferus a oedd gan Aelodau i gwestiynu'r Cabinet, gan gynnwys y broses graffu, ac nid oedd o'r farn bod gwerth estyn trafodaethau'r Cyngor trwy ychwanegu elfennau pellach at gyfarfodydd. Hefyd, mynegodd yr Arweinydd ei siom y byddai'r

Aelod yn codi amheuaeth am broffesiynoldeb y Swyddog Monitro wrth benderfynu ar ddilysrwydd galwad a phwysleisiodd ei barch tuag at Mr Tranter a'i rôl.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro mai mater i'r Cyngor oedd newidiadau i'r Cyfansoddiad, gan gynnwys y Broses Galw i Mewn, ac y byddai'n glynu wrth benderfyniad y Cyngor.

Cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn Adroddiad y Swyddog yn cael ei gymeradwyo a, thrwy Microsoft Forms a Chadarnhad Llafar, ac wrth nodi bod 55 o blaid, 2 yn erbyn a 4 yn ymatal, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

> PENDERFYNWYD bod y newidiadau i'r Cyfansoddiad sydd ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo.

Daeth y cyfarfod i ben am 19:03pm

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir ac, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau y cytunir arnyn nhw ac a gofnodir yng nghofnodion y cyfarfod a gynhelir ar 19 Gorffennaf 2022, fe'u llofnodwyd gan y Maer.

_____

MAER